Coleg Pencoed

Pencoed
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF35 5LG

Rhif ffôn 01656 302610
E-bost: vjones@bridgend.ac.uk
Gwefan: www.bridgend.ac.uk
Llyfrgellydd cyswllt: Vanessa Jones

Cyfarwyddiadau

MANYLION HEOL

Mae Pencoed yn agos at draffordd yr M4 sy'n cysylltu'r ardal yn uniongyrchol â Llundain ac â gweddill y DU. Mae Pencoed tua hanner ffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe, yn agos at dref Pen-y-bont ar Ogwr a dim ond tua milltir o'r draffordd. I ddod i'r coleg ar yr heol dylid gadael traffordd yr M4 ar gyffordd 35, cymryd yr A473 i gyfeiriad y Gogledd Ddwyrain o'r M4 a mynd yn syth ymlaen ar draws y gylchfan gyntaf (mae Sony ar y dde) a throi i'r dde ac i mewn i'r coleg wrth y gylchfan nesaf.

MANYLION BWS

Mae arosfannau bws o fewn ychydig o gannoedd o lathenni o fynedfa'r coleg. Mae Gorsaf Fysiau newydd ei hadeiladu ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda nifer o wasanaethau bws lleol a chenedlaethol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am deithio gyda bws oddi wrth National Express.

MANYLION RHEILFFORDD

Mae gorsaf reilffordd Pencoed yng nghanol y dref (tacsis gerllaw) tua 10 munud o daith gerdded o'r coleg. I ddod i'r coleg o'r orsaf reilffordd, trowch i'r chwith wrth y gofeb i Penybont Road. Ewch yn eich blaen at ben draw'r heol ac mae mynedfa i'r coleg oddi ar y gylchfan. Mae gorsaf reilffordd Pen-y-bont ar Ogwr ar y brif linell reilffordd gyda gwasanaeth rheilffordd Inter-City rhwng Llundain (Paddington) ac Abertawe (Gorllewin Cymru). Cewch ragor o wybodaeth am deithio ar y trên ar wefan National Rail.



LLYFRGELLOEDD YN Y GYMUNED PEN-Y-BONT AR OGWR A'R FRO

Yn seiliedig ar fapio Digidol Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi. (C) Hawlfraint y Goron. Gall atgynhyrchu heb awdurdod arwain at erlyniad neu weithrediadau sifil. Hawlfraint y Gorn 2005, Trwydd Rhif 100023405. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.